# EVANS, DAVID LLOYD (1861 - 1912), siopwr, trafaeliwr, a cherddor

**Enw:** David Lloyd Evans
**Dyddiad geni:** 1861
**Dyddiad marw:** 1912
**Rhiant:** Ellen Evans
**Rhiant:** Evan Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** siopwr, trafaeliwr, a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd 29 Rhagfyr 1861, mab Evan ac Ellen Evans, Adwy-ddu, Penrhyndeudraeth, Sir Feirionnydd. Cafodd ei wersi cerddorol cyntaf yn nosbarthiadau John Roberts, Porthmadog, a thrwy astudio *Gramadeg Cerddoriaeth* ' Alawydd ' a llyfrau eraill daeth yn gerddor da. Bu ' Cân y Cryd ' a'r ddeuawd ' Mae'r byd yn llawn o ganu ' yn boblogaidd, a chafodd ei ranganau ' Trig gyda mi,' ' Oleuni Mwyn,' a'r ' Tylwyth Teg,' gylchrediad eang. Yr oedd ganddo gôr llwyddiannus yng Nghorwen, lle y bu'n trigo am beth amser, a hefyd un ym Mhenrhyndeudraeth, a chymerai ran yng ngwyl gerddorol Harlech. Gelwid arno'n fynych i arwain cymanfaoedd canu a beirniadu yn yr eisteddfodau. Bu farw 13 Rhagfyr 1912, a chladdwyd ef ym mynwent Nazareth, Penrhyndeudraeth.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Y Cerddor*, Ionawr 1913


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732861


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu